CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - CHWEFROR 2016

DYDDIAD	Nos Fercher, 17 Chwefror 2016
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Canolfan Llanwnda**

a) **Croeso**
Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan Rhys Owen yr Is-Gadeirydd. Yn bresennol roedd Nerys Evans, Aeron M Jones, Gwilym v Thomas, Gwilym Ll Williams, Elin Evans a Les Williams. Hefyd yn bresennol roedd y clerc Caryl E Lewis.

b) **Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol; Jason Hunt, Michelle Williams, Tom Ellis, Elwyn Jones.

Nid oedd Neal Williams yn bresennol.

c) **Datgan Buddiant**

Bu i'r canlynol ddatgan diddordeb yn y materion isod:

Cais nawdd Ysgol Gynradd Rhosgadfan – Ar y llywodraethwyr - AMJ
Cais nawdd Canolfan Llanwnda – Ar y Pwyllgor - AMJ
Cais nawdd Ysgol Syr Huw Owen – Ar y pwyllgor - EE

d) **Cadarnhau cofnodion 20 Ionawr 2015**
Cadarnhau eu bod yn gywir.

e) **Materion i'w trafod:**

a) Tir ger Sain
Dim diweddariad.

b) Parcio ger siop sglodion Rhosgadfan (AMJ)
Clerc wedi derbyn cadarnhad fod yr heddlu rwan wedi cymryd camau a llythyru trigolion yn rhybuddio i beidio a pharcio yno, byddent yn monitro'r sefyllfa dros yr wythnosau nesaf.

c) Cae Ysgol Rhosgadfan (AMJ)
AMJ yn cadarnhau fod y gwaith dreinio wedi cychwyn.

d) Llifogydd (AMJ)
Rhostryfan – wedi newid y grid yn ymyl Berwyn, i weld yn gweithio. Prynu IP camera – sbio mewn ar y grid, gallu pigo fyny pryd mae am orlifo. Cyngor Gwynedd angen peipio culvert i draen, AMJ ar eu holau nhw o ran hwn. Dim gweithred i'r Cyngor Cymuned. .

e) Roundabout fingar – posteri (NE)
Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto. Elusen Gafael llaw sydd wedi eu gosod, clerc i gysylltu gyda'r elusen.

f) **Damwain eto yn mynedfa Ty'n Rhos (**EE)
Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto. Mae wirioneddol angen gwneud rhywbeth yma gan fod sawl damwain wedi bod.

g) Ger Menai Tractors – rhywfaint or wal gerrig wedi dod lawr (EE)
Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto.

h) Tyllau yn y lon ar ol y lligofydd wedi gwaethygu. (RO)
Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto.

i) **Dros ffordd i Tai Uwch Menai, Saron, lon wedi rhoi. (RO)**
Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor

	Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto. **j) Golau Stryd rhwng 20 a 21 Bro Cadfan. (MW)** Wedi ei drwsio. **k) Baw ci o gwmpas Rhosgadfan. (NW)** Clerc wedi adrodd wrth Cyngor Gwynedd ac yn aros am ymateb. Diffyg biniau baw ci yn broblem hefyd, problem yn warthus yn y pentref. **l) Kiosk yn sgwar Rhos Isaf – dim drws arno. (GLIW)** Dim ymateb gan BT, Clerc i gysylltu eto. **m) Arwydd golau Ffrwd Cae Du ddim yn gweithio. (EJ)** Nodwyd fod y Clerc wedi adrodd wrth Meirion Williams, Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb eto.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Llwybr Bryngwyn** Arwyddion 'Ci ar Dennyn' wedi eu harchebu, gofynnodd y Clerc gyngor Aelodau am y lleoliadau gorau i'w gosod. Awgrymwyd i'r clerc holi EJ neu JH. **Mynwent Cefnfaes** a) Estyniad i'r fynwent, angen cytundeb ffurfiol gyda fferm Gadlys. Cael pori yno am 11 mis or flwyddyn. Mae posib cael copi o grazing licence gan Gwynedd Watkin FUW. Angen ffeindio'r deeds. Hefyd gofynnwyd a oes modd gofyn i Jones Bros godi wal fel rhan o'r gwaith cymunedol ar beipass Bontnewydd. b) Angen trefnu cyfarfod o'r Is-Bwyllgor i adolygu ffioedd, Clerc i drefnu. **Cae'r Gors** RO yn nodi fod Ffermwyr ifanc yn cyfarfod gyda CADW wythnos yma i drafod cymryd y swyddfa ymlaen.
7.	**Is-bwyllgorau**
8.	a) **Adroddiad Ariannol (i'w gyflwyno yn y cyfarfod)** Bodlon gyda'r adroddiad ariannol ar taliadau isod. Nodwyd er ein bod wedi cadw lefel y praesent yr un fath eleni, flwyddyn nesaf bydd angen ystyried codi i adlewyrchu tynnu grant llwybrau a hefyd mwy o ddisgwyliadau ar y cyngor cymuned. **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 17 Chwefror 2016** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **14,334.43** - Transfer i cyfrif siec 5,000.00 **Balans ar derfyn busnes 15 Chwef 2016** 9,334.43 **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **4,766.07** + Transfer o cyfrif cadw 5,000.00 + Rhodd at gynnal y Fynwent 20.00 - 101333 Cyflog Clerc Ion 424.40 - 101334 Swyddfa'r Post PAYE Ion 95.60 - 101335 Mcafee Antivirus (C.Lewis) 89.99 - 101336 Wyn Williams 655.50 - 101323 Canolfan Llanwnda 10.00 **Balans ar derfyn busnes 18 Ion 2016: 8510.58**

	Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 17 Chwefror 2016: Cyflog Clerc Chwef 424.40 Cyllid y Wlad Chwef 95.60 Petty Cash (Caryl Lewis) 300.00 Zurich 1,437.46 Canolfan Llanwnda 10.00 **Cyfanswm 2,267.46** b) **Ceisiadau nawdd 2015/16** Rhoddwyd sylw i'r papur ystyriaethau pan yn asesu cais am nawdd a ysgrifennwyd gan y Clerc. Awgrymodd y Clerc y byddai'n gwneud synnwyr cael ffurflen gais syml at flwyddyn nesaf ymlaen, byddai hyn yn sicrhau fod ceisiadau yn gyson ac yn cynnwys yr holl wybodaeth byddai'r Cyngor angen gwybod. Hefyd nodwyd y byddai'n anodd symud i gael 2 ddyddiad cau mewn blwyddyn ac yn gor-gymhlethu'r drefn. Cytunwyd gyda'r argymhelliad sef i gael ffurflen gais syml at flwyddyn nesaf, set o reolau syml a chadw at un dyddiad cau blynyddol. Cytunwyd ar y ceisiadau nawdd fel a ganlyn: **Cyngor ar Bopeth – £100** - Tybed byddent yn ystyried dod allan i'r ardal? Yn ymwybodol eu bod nhw'n mynd i rai pentrefi. **Cae Chwarae Rhosgadfan** – Gohirio tan mis nesaf. Gofynnwyd am £8,000 tuag at gostau roundabout. Ni fyddai'n bosib cyfrannu cymaint ond rhoddwyd cynnig ein bod yn talu eu costau yswiriant blynyddol neu cynnig o grant cyfalaf. Mae'r Cyngor Cymuned eisoes yn talu am yswiriant cae chwarae Rhostryfan. Clerc i wneud ymholiadau gyda'r grwp a hefyd holi zurich beth fyddai'r gost ychwanegol i'w roi ar yswiriant y Cyngor Cymuned. **Cylch Meithrin Llanwnda** – Cynnig grant o £600 i'r Cylch i brynu'r offer. **Treialon Cwn Defaid Llanllyfni** - £50 **Ysgol Rhosgadfan** - £1000. Flwyddyn nesaf – ystyried ein bod yn rhoi cynnig i ysgolion y dair ardal e.e talu am gwersi nofio. **Lleu** - £100 **Mynwent Hermon** - £100 **Dawns i Bawb** - £150 **Canolfan Bro Llanwnda** - £250 **Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle** - £0, dim tystiolaeth o fudd uniongyrchol i'r dalgylch. **Clwb Felin Llanwnda** - £50 **Llywodraethwyr Ysgol Syr Huw** - £100 **Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint** - £0, dim tystiolaeth o fudd uniongyrchol i'r dalgylch.
9.	**Materion Cynllunio** AMJ yn nodi fod cais wedi ei gyflwyno drwy Cyngor Cymuned Llandwrog i newid hawliau cynllunio chwarel Rhosgadfan. Clerc i holi Clerc Llandwrog beth oedd eu hymteb.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Dim i'w nodi
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** **AMJ –** Pensiwn Clerc angen ei sortio

	EE – Glynllifon, newid enw – angen rhoi pwysau i beidio a newid i Newborough Hall, ydy Cyngor Gwynedd yn gallu rhoi pwysau arnynt i gadw yr hen enw? **NE –** Angen glanhau lon am bont Cae'r Moel, lot o ddail yno a mae'n llithrig. **NE –** Dwr ar y llon rhwng Llecyn a Pen Goeslon Rhos Isaf, wrth y bocs GPO. Angen mynd ar ol Priffyrdd eto efo hwn. **NE –** Angen arwydd ar y bin brown newydd yn mynwent Cefnfaes, peidio rhoi dim byd ond blodau / gwastraff gwyrdd yn y bin brown. **Dyddiad: 16 Mawrth 2016** **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**